

CHARLES, JOHN ALWYN (1924-1977), gweinidog (A.) ac athro coleg

Enw: John Alwyn Charles
Dyddiad geni: 1924
Dyddiad marw: 1977
Priod: Pegi Charles (née Rees)
Plentyn: Dafydd Charles
Rhiant: David John Charles
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog (A.) ac athro coleg
Maes gweithgaredd: Crefydd; Addysg
Awdur: Ioan Wyn Gruffydd

Ganwyd Alwyn Charles yn Colombia Row, Llanelli, 18 Rhagfyr 1924, yn fab David John Charles a'i briod. Derbyniodd ei addysg gynnar yn St. Paul a Lakefield, Llanelli, cyn mynd i Goleg Ysgrifenyddol Woodend. Oddi yno, aeth i wasanaethu fel clerc yn swyddfa cyfreithwyr Jennings a Williams. Codwyd ef i bregethu yng Nghapel Als, Llanelli, o dan weinidogaeth y **Parchg. D. J. Davies**. Wedi dilyn cwrs paratoi yng Ngholeg Myrddin, cafodd ei dderbyn, fis Hydref 1943, i Goleg Presbyteraid Caerfyrddin. Ym 1948, enillodd radd B.A. gydag anrhydedd mewn Athroniaeth o Goleg y Brifysgol, Caerdydd, a'r B.D. ym 1951 o Goleg Caerfyrddin, gydag anrhydedd mewn Athroniaeth Crefydd.

Derbyniodd alwad i fod yn weinidog eglwys Ebeneser, Tylorstown, lle cafodd ei ordeinio ar 18 a 19 Gorffennaf 1951, a lle'r arhosodd hyd 1959. Bu'n gweinidogaethu wedyn yn yr Allt-wen (1959-63), ac yn Harrow (1965–66). Bu'n athro ysgol yn Windsor o 1963 hyd 1965.

Ar 18 Ionawr 1955, priododd â Miss. Pegi Rees, merch y diweddar Barchg. Harding Rees a'i briod. Cawsant un mab, Dafydd.

Cafodd Alwyn Charles ei benodi, yn dilyn marwolaeth ddisyfyd y **Prifathro Gwilym Bowyer**, i gadair Athrawiaeth Gristionogol yng Ngholeg Diwinyddol Bala-Bangor, Bangor, fis Hydref 1966, swydd y bu ynnddi hyd ei farw. Ymhlith ei gyhoeddiadau gellir nodi ei anerchiad yn Undeb Aberteifi, 'Dylanwad y Brifysgiol ar ddiwinyddiaeth Cymru' (1974) ac erthygl yn *Efrydiau Athronyddol*.

Yr oedd yn bregethwr nerthol, yn llawn argyhoeddiad, ac yr oedd cryn alw am ei wasanaeth. Yn ystod saith mlynedd olaf ei fywyd, fodd bynnag, bu rheidrydd arno, ar gyfrif anhwylder y galon, i gyfyngu maint ei deithio, a threfnwyd iddo, yn ystod y cyfnod hwnnw, i wasanaethu'n gyson ym mhulpud eglwys Bethesda, Bethesda. Tystiai'r **Prifathro R. Tudur Jones** amdano fod gan Alwyn Charles 'feddwl clir a disglair a chan fod goleuni'r Beibl megis llusern i'w draed, tyfodd yn athrawiaethwr grymus ei gyfraniad.' Ychwanegodd y Prifathro mai'r maes yr arbenigodd ynddo oedd diwinyddiaeth John Calfin ac mai 'rhan o dristwch ei farw cynnar oedd iddo farw cyn llawn gwblhau'r gwaith pwysig a oedd ganddo mewn llaw ar y maes hwnnw.'

Yr oedd Alwyn Charles yn r egnol iawn, yn bregethwr huawdl, yn ysgolhaig godidog, yn r diddan a'i chwerthin iach yn llonni pob cwmni, ac yn r yr oedd gan ei fyfyrwyr, a'r rhai y bu'n weinidog iddynt, feddwl uchel ohono.

Ar 31 Mawrth, 1977, cafodd drawiad ar y galon a'i gymryd i Ysbyty Môn ac Arfon ym Mangor. Yno y bu farw ar Ebrill 1. Cynhaliwyd ei angladd ddydd Mawrth, 5 Ebrill, gydag oedfa gyhoeddus yng Nghapel Pen-dref, Bangor, a gwasanaeth preifat yn amlogfa'r ddinas.

Awdur

Ioan Wyn Gruffydd

Ffynonellau

Ymchwil bersonol

Y Tyst 21 Ebrill 1977

Blwyddiadur yr Annibynwyr Cymraeg 1978

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20748845](https://www.wikidata.org/wiki/Q20748845)

Dyddiad cyhoeddi: 2011-01-07

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

